



Problemau moch daear: cyngor i ddeiliaid tai

Ym Mhrydain y mae'r nifer fwyaf o foch daear (*Meles meles*) yn Ewrop. Mae nifer y moch daear wedi cynyddu, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, ac weithiau fe allant achosi problemau. Gallant ddifetha gerddi, peri difrod i dai ac amwynderau, a hyd yn oed achosi problemau a all beryglu bywydau megis tyllu o dan ffyrdd a rheilffyrdd. Mewn trefi, lle mae moch daear yn effeithio ar lawer o dai cyfagos, efallai y bydd angen i gymdognion drafod a chydweithio er mwyn datrys y broblem.

Moch daear a'r ddeddfwriaeth

Mae moch daear a'u tyllau wedi'u gwarchod dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992, sy'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon i ladd, cymryd neu anafu unrhyw fochyn daear, i gloddio am fochyn daear neu i ymyrryd â chartref mochyn daear. Ond mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu gweithredu mesurau i atal difrod sylweddol i eiddo gyda thrwydded gan Is-Adran Tir, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru. Ond weithiau, mae'n bosib ateb problemau heb orfod cael trwydded i weithredu.



Difrod

Difetha lawntiau

Mae moch daear yn gallu addasu'n dda i'w hamgylchedd a'r math o fwyd sydd ar gael mewn ardaloedd trefol. Mae hyn yn cynnwys y

bwyd y mae bobl yn ei adael allan ar eu cyfer. Ond, maent hefyd yn bwyta creaduriaid di-asgwrn-cefn gan balu tyllau bas mewn lawntiau wrth chwilio amdanynt. Yn aml, dyma sy'n achosi'r gwrthdaro rhyngddynt â deiliaid tai. Mae pryfed genwair yn cael eu tynnu o wyneb y ddaear gan amlaf, ond fe all hyn ddifetha'r tir os yw'n sych. Gall cynrhon pryfaid megis chwilod tes a hirheglod (leatherjackets) ddifetha lawntiau a denu moch daear. Mae moch daear sy'n tyllu er mwyn bwyta'r cynrhon hyn yn ychwanegu at y broblem. Nid yw'r difrod yn para'n hir fel arfer, ac mae'n debygol o fod yn fwyaf amlwg ar ddiwedd yr Hydref a dechrau'r Gwanwyn. Mae tyllau tail moch daear, sy'n cael eu defnyddio ganddynt i nodi eu tir, yn achosi mwy o broblemau os ydynt mewn gerddi.

Difetha ffrwythau a llyisiau

Mae moch daear yn hoff iawn o fefus a mafon, ac fe allant ddifetha unrhyw blanhigion sydd â ffrwythau meddal yn tyfu arnynt. Mae sôn eu bod hefyd yn gallu torri canghennau isel coed ffrwythau tra'n bwyta afalau, gellyg ac eirin, ac maent hefyd yn bwyta tatws, moron ac india-corn. Gallant hyd yn oed dynnu bylbiau blodau o'r ddaear a'u bwyta.

Chwilio biniau sbwriel

Yn aml, bydd moch daear yn dymchwelyd biniau sbwriel wrth chwilio am fwyd, yn

enwedig mewn tywydd poeth a sych pan fydd bwyd arall yn brin.

Difrod i adeiladwaith

Gall tyllau moch daear fod yn fawr gyda thwneli helaeth. Os yw'r twneli o dan strwthurau fel adeiladau, ffyrdd neu ffensys, fe all fod perygl o ymsuddiant. Mae difrod i geblau trydan a gwasanaethau eraill hefyd yn bosibl. Dylech gofyn am gyngor wrth Gyngorwyr Rheoli Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl os yw moch daear yn peri difrod i adeiladwaith. Os yw'r difrod a achosir yn ddifrifol neu'n debygol o fod yn ddifrifol, efallai bydd hawl gennych gymryd camau sy'n effeithio ar y frochfa gyda thrwydded oddi wrth Llywodraeth Cymru. Nid oes hawl gennych ymyrryd â brochfa heb drwydded o'r fath.

Atal difrod

Mae'n hawdd datrys rhai problemau a achosir gan foch daear. Er enghraifft, os yw eich biniau'n cael eu dymchwel yn aml gallwch ddefnyddio caead sy'n clipio neu fe allwch ddefnyddio strapiau elastig (bynji) er mwyn cadw'r caead ar y bin. Os yw tyllau tail moch daear yn achosi problemau mewn gerddi, un ateb yw cael gwared arnynt. Defnyddiwch raw i gael gwared ar y tail a'i gladdu neu ei roi mewn lle y mae'n llai tebygol o achosi problemau.

Mae'n anodd iawn lleihau'r difrod a wneir i lawntiau a chnydau. Weithiau, mae'r gost o atal y difrod yn fwy na'r manteision. Yn wir, mae rhai garddwyr yn goddef y difrod am ei fod yn dymhorol gan amlaf ac felly ond yn digwydd ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud i leihau'r difrod, gan gynnwys codi ffensys.

Ffensys

Mae codi ffensys yn fwy effeithiol na chemegau ond fe all fod yn ddrud. Gallwch ddefnyddio ffensys metel (dolennog neu rhwyll wedi'i weldio) neu ffensys trydan i rwystro moch daear rhag dod i mewn i le arbennig.

Ffensys Parhaol

Ffensys dolennog a ddefnyddir oherwydd eu bod yn gryf. Nid yw gwifren cwt ieir yn addas. Am fod moch daear yn gallu dringo, mae angen sicrhau bod bargod o 30cm (12") ar frig y ffens, sy'n wynebu i ffwrdd oddi wrth y lle sy'n cael ei ddiogelu. Dylai'r ffens gael ei chodi i uchder o 125cm (48") o leiaf a'i chladdu i ddyfnder o 60cm (24"). Fel arall, gallwch lapio'r rhwyll tuag allan am 50cm (20") ar wyneb y ddaear er mwyn rhwystro moch daear rhag tyllu oddi tano.

Ffensys trydan

Mae ffensys trydan yn fwy syml a rhad. Gallwch ddefnyddio batri car (mae'n rhaid ei wefrio yn rheolaidd) neu newidydd 12v a gaiff ei bweru gan y prif gyflenwad trydan. P'un bynnag a ddewiswch, bydd angen 'energiser' arnoch sy'n cydymffurfio â'r Safonau Prydeinig. Os defnyddir y prif gyflenwad trydan, gallwch gysylltu'r ffens i amserydd a fydd yn sicrhau ei bod yn gweithio dim ond pan fo angen.

Gallech ddefnyddio naill ai netin trydan atal cwningod neu ffens weiren dynnu neu 'polywire'. Os ydych am i'r ffens bara am flynyddoedd gwifren ddu fyddai'r dewis gorau. Ar gyfer ffens weiren dynnu neu 'polywire', gallwch ddefnyddio ffurf dwy weiren neu bedair weiren. Ar gyfer ffens dwy weiren, dylech osod y weiar 8cm (3") ac 20cm (8³/₄") o'r llawr. Ar gyfer ffens pedair weiren, dylai'r weiers fod 10, 15, 20 a 30cm (4, 6, 8, 12 modfedd) o'r llawr. Mae'n bwysig defnyddio pyst i sicrhau bod y ffens yn gadarn yn y ddaear, ac wedyn ei thynnu'n dynn. Yn ogystal, dylai fod wedi ei daearu'n dda a rhaid cael gwared ag unrhyw lystyfiant o'r gwifrau. Gofynnwch i gyflenwyr amaethyddol pa fath o ffens sy'n addas i chi.

Ymlidyddion

Ar hyn o bryd, ni cymeradwyir unrhyw ymlidydd ar gyfer ei ddefnyddio yn erbyn moch daear. Daeth y cymeradwy i ddefnyddio Renardine (fformwleiddiad o olew esgyrn) i ben rhai blynyddoedd yn ol.

Dulliau eraill

Fel y soniwyd eisoes, weithiau mae moch daear yn difetha lawntiau pan gânt eu denu at y pryfed di-asgwrn-cefn sy'n byw yn y pridd. Gallwch ddatrys y broblem trwy ddefnyddio plaladdwyr cymeradwy i ladd y pryfed; serch hynny, rhaid ystyried effaith hyn ar bryfed di-asgwrn-cefn eraill sy'n ddefnyddiol (a'r anifeiliaid sy'n eu bwyta). Fel arall, gallwch osod netiau o dan y pridd er mwyn rhwystro moch daear rhag palu am bryfed a bylbiau blodau.

Mewn rhai achosion, llwyddwyd i rwystro moch daear rhag difetha gerddi trwy roi bwyd gwahanol iddynt. Serch hynny, gall hyn wneud moch daear yn ddibynnol ar bobl ac efallai denu mwy o foch daear i'r ardd a chynyddu'r posibilrwydd o ddifrod mewn tai cyfagos hefyd. Er mwyn dod o hyd i ateb digonol, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn nodi unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl ac yn cydweithio â'ch cymdogion.

Gallwch rwystro moch daear rhag malu ffensys trwy osod clwydi dwyffordd. Mae gan Llywodraeth Cynulliad Cymru daflen wybodaeth (WM11) sy'n disgrifio clwydi o'r fath (gweler 'Mwy o Wybodaeth').

Trwyddedau a gwybodaeth arall

Os yw moch daear neu eu tyllau yn peri difrod difrifol neu'n debygol o wneud hynny, mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i chi gymryd camau i'w rhwystro gyda thrwydded. Fel arfer, nid yw difrod mewn gerddi sy'n cael ei achosi gan foch daear yn tyrchu am eu bwyd yn cael ei ystyried yn ddigon o reswm i roi trwydded. Perchennog y drwydded fydd yn ysgwyddo cost unioni difrod sydd wedi'i wneud gan foch daear a'u dyllau.

Os hoffech fwy o gyngor ar sut i ddelio a phroblemau ynglyn a moch daear neu ffurflen gais am drwydded, cysylltwch ag un o'r Gyngorwyr Rheoli Bywyd Gwyllt, e-bost: Wildlife@llyw.cymru neu Ffôn0300 061 5920.

Mae cyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cymru ar foch daear a amrywiaeth o daflenni ar bynciau bywyd gwyllt ar gael ar-lein yn <http://gov.wales/rheolibywydgyyllt>